

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 2 o FAWRTH 2020 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH**

**Presennol:** Margaret Rees ( yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Alan Lewis, Geraint Rosser, Linda Williams, Caroline Williams, Heddwyn Jones, Aled Williams, Tracey James a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Geoff Hewitt a Meic Bowen

**2377** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

**2378 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 03/02/2020 fel rhai cywir.

**2379 Materion yn codi.**

Tud 1. Cofnod Rhif 2352 - Co-op Pontiets - Yn dilyn ymweliad Rhys Price a thrafodaeth bellach penderfynwyd ysgrifennu at y Co-op yn gofyn am eglurhad ynglŷn â rai materion.

Tud 1. Cofnod Rhif 2355 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Cafwyd Cyfarfod Safle ar 26/02/20. Arhoswn am ymateb pellach oddiwrth y Cyngor Sir

Tud 1. Cofnod Rhif 2355 - Swyddfa Bost Carwe - Cafwyd ymateb oddiwrth y Swyddfa Bost. Arhoswn am gadarnhad dyddiad cyfarfod oddi wrthynt.

Tud 2. Cofnod Rhif 2355 – Goleuadau Tai Ffoslas – Arhoswn am ymateb oddiwrth Cwmni Persimmon.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**2380** Cruse Sir Gar - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

**2381** Cylch Meithrin Llangyndeyrn - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500

**2382** Neuadd Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

**2383** Eglwys Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

**2384** Manshed Gwendraeth - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

**2385** Ambiwylans Awyr Cymru i Blant – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**2386** Neuadd Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhoddion

**2387** Carway Short Mat Bowls – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**2388** Neuadd Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

**2389** Jamie King – Ymateb ynglŷn a Gwefan y Cyngor – Penderfynwyd cefnogi cais Jamie King.

**2390** Coed Ffoslas - Penderfynwyd cysylltu gyda Chwm Enviromental ynglŷn â chasglu bagiau Baw Cwn.

**2391** Llwybr Treftadaeth Pontiets - Penderfynwyd cysylltu gyda Bassett & McGregor, Caerfyrddin ynglŷn â'r mater.

**2392** Swyddfa Bost Pontiets- Nodwyd bod gwasanaeth dros dro yn dechrau yn y Neuadd ar 04/03/20 ar Brynhawn Dydd Mercher rhwng 13.00 a 15.00 a Bore Dydd Gwener rhwng 10.00 a 12.00.

### **Ceisiadau Cynllunio**

**2393** a) Rhif y Cais - W/40197 - Mr Mike Jacob - Y Bwthyn, Carwe - Tŷ Annedd- Dim Gwrthwynebiad  
b) Rhif y Cais - W/40210 - Mr Edward Morgan - Lan Farm, Crwbin - Dymchwel Tŷ ac adeiladu Tŷ Newydd -- Dim Gwrthwynebiad.

### **Cynghorwr Linda Williams – Is-gadeirydd yn y gadair**

*Cynghorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*  
c) Rhif y Cais – W/40304 – Ms S Laidlaw – Banc, Llangyndebyrn – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.  
*Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod*

### **Cynghorwr Margaret Rees yn y gadair**

### **Gwaharddiad y Cyhoedd**

**2394** Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

### **Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis**

**2395** Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Chwefror 2020. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

### **Adroddiad Ariannol Misol**

**2396** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-  
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Chwefror)  
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Chwefror)  
c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Chwefror)  
ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Chwefror)  
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Chwefror)  
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Chwefror)  
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Chwefror)- £182.00  
f) Inc i'r Llungopiwr - £44.66  
ff) Swyddfa Archwilio Cymru – Archwiliad 2018/2019 - £183.75  
g) Treuliau'r Syrfêwr - £24.00  
ng) Ffon y Syrfêwr - £25.00  
h) Safle Ail-gylchu Meinciau - £500.00  
i) Un Llais Cymru – Aelodaeth - £571.00

*Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod*

**l)** Atgyweirio Toiledau'r Meinciau - £129.84

*Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

**2397** **Safle Sedd Newydd yng Ngharwe** - Cafwyd adroddiad gan y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr eto gan Mr a Mrs Fisher ynglyn a'r mater hwn. Wedi trafodaeth lwyr cadarnhawyd penderfyniad cadarnhau gwreiddiol y Cyngor ym Mis Tachwedd 2019.

**Cyfarfod nesaf:- 6 o Ebrill 2020 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.  
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

**Dyddiad.....**